# SL(6)571 – Rheoliadau Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Caffael 2023 ("Deddf 2023") a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024"). Mae'r diwygiadau'n ymdrin â sicrhau y gellir gwneud diweddariadau i'r ffigurau trothwy a fydd yn gymwys i awdurdodau contractio sy'n awdurdodau Cymreig datganoledig neu sy'n cael eu trin felly; ychwanegiadau at rwymedigaethau rhyngwladol y DU ynghylch caffael, a diwygiadau i'r rhwymedigaethau hynny; a materion a godwyd mewn adroddiad blaenorol gan y Pwyllgor hwn a gohebiaeth ddilynol yn ymwneud â Rheoliadau 2024.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 6 yn mewnosod rheoliad 45A newydd yn Rheoliadau 2024. Mae'r rheoliad 45A newydd yn cynnwys cyfeiriadau at "swm trosiant ymgysylltiedig", "person ymgysylltiedig" a "cyfleustod". Nid yw'r termau hyn wedi'u diffinio yn rheoliad 45A newydd, nac wedi'u diffinio yn Rheoliadau 2024 (mae "cyfleustod" wedi'i ddiffinnio mewn perthynas â Rhan 2 o Reoliadau 2024, ond nid at ddibenion Rhan 3 y byddai rheoliad 45A yn rhan ohoni). Mae troednodiadau i'r rheoliad 45A newydd yn gwahodd cyfeiriadau at ddarpariaethau Deddf 2023 ar gyfer ystyr y termau hyn, ond nid yw troednodiadau yn rhannau gweithredol o ddeddfwriaeth. Felly, mae angen diffinio'r termau hyn yng nghorff y rheoliad 45A newydd.

At hynny, dylid nodi y defnyddir y term "person ymgysylltiedig" ddwywaith cyn y cyfeirir at y troednodyn. Cyfeirir hefyd at "personau… ymgysylltiedig" ond nid yw'n glir a fwriedir i hyn fod â'r un ystyr â "person ymgysylltiedig" (er y nodir y byddai'r diffiniad a ddefnyddir yn Neddf 2023 yn cwmpasu'r ddau).

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam na chynhwyswyd diffiniadau ar gyfer "swm trosiant ymgysylltiedig", "person ymgysylltiedig" a "cyfleustod" yn yr adran 45A(5) newydd nac mewn mannau eraill yn y Rheoliadau os yw'n briodol.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rhai o'r diwygiadau y mae'r Rheoliadau yn eu gwneud i Reoliadau 2024 yn mynd i'r afael â materion a godwyd yn adroddiad blaenorol y Pwyllgor hwn a gohebiaeth ddilynol. Mae hyn yn cynnwys diweddaru terminoleg yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau fel ei bod bellach yn cyfeirio'n gywir at Gomisiwn Senedd Cymru yn lle Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac at gyrff cyhoeddus eraill yn ôl eu teitlau presennol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi y cyfeiriodd y llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet at Gadeirydd y Pwyllgor ar 2 Medi 2024 at bryderon am effaith newid enwau'r cyrff hyn ar gydnawsedd â rhwymedigaethau rhyngwladol. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu dychwelyd i edrych ar oblygiadau rhyngwladol diweddaru enwau awdurdodau Atodlen 2 yn ddiweddarach. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar os gallai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut a pham y penderfynodd ei bod bellach yn briodol gwneud newidiadau i'r enwau hyn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau'n diwygio newidiadau i Ddeddf 2023 sydd i'w gwneud gan Reoliadau Deddf Caffael 2023 (Diwygiadau Canlyniadol a Diwygiadau Eraill) 2025 ("Rheoliadau'r DU"), sydd ar ffurf ddrafft gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd ac nid ydynt eto'n gyfraith. Disgwylir i ddarpariaethau Rheoliadau drafft y DU y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hwy ddod i rym ar 23 Chwefror 2025, un diwrnod cyn y Rheoliadau hyn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y canlynol:

> *Cynhaliwyd ymgyngoriadau cyhoeddus ffurfiol ar Offerynnau Statudol Drafft Llywodraeth y DU (OSau) gyda dogfennaeth ategol ddwyieithog yn esbonio'r rhanddirymiadau / gwahaniaethau arfaethedig i Gymru. Mae llawer o'r elfennau a gynhwyswyd yn yr ymgyngoriadau yn cael eu datblygu yn y Rheoliadau hyn ac felly mae'r wybodaeth a gasglwyd yn berthnasol. Felly ni chynhaliwyd ymarfer ymgynghori ar wahân.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol a'r pwynt rhinweddau yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.